# Hybu potensial addysgol plant a phobl ifanc

## Trosolwg

Mae'r safon hon yn nodi'r gofynion wrth hybu potensial addysgol plant a phobl ifanc. Mae hyn yn cynnwys cefnogi plant a phobl ifanc i nodi eu dyheadau addysgol ac yna'u helpu i gynllunio a chael mynediad at gyfleoedd a gweithgareddau addysgol. Mae hefyd yn cynnwys annog a chefnogi plant a phobl ifanc pan fyddant yn ymgymryd â gweithgareddau addysgol ac adolygu pa mor effeithiol mae'r gweithgareddau wedi bod.

## Meini prawf perfformiad

*Rhaid i chi allu:*

1. nodi anghenion cyfathrebu, iaith a datblygiadol plant neu bobl ifanc
2. hybu amrywiaeth, cynhwysiant, hygyrchedd a chyfranogiad
3. gwrando ac ymateb mewn ffordd sy'n dangos eich bod yn gwerthfawrogi ac yn parchu plant neu bobl ifanc
4. gweithio mewn partneriaeth â phlant neu bobl ifanc i nodi eu cryfderau, eu potensial addysgol a’r canlyniadau maent yn dymuno’u cyflawni yn ystod eu bywydau
5. nodi gyda phlant neu bobl ifanc sut y gallant adeiladu ar eu cryfderau a’u potensial addysgol i gyflawni eu canlyniadau
6. cefnogi plant neu bobl ifanc i archwilio’r hyn sy’n eu hysgogi a gosod nodau realistig y gellir eu cyflawni ynghyd â chanlyniadau mesuradwy
7. cefnogi plant neu bobl ifanc i nodi a mynegi eu pryderon, eu hofnau a’r risgiau posibl
8. gweithio mewn partneriaeth â phlant neu bobl ifanc ac eraill i gynllunio a rheoli eu pryderon, eu hofnau a’r risgiau posibl
9. gweithio mewn partneriaeth â’r plentyn neu berson ifanc ac eraill i gynllunio, cydlynu a chael gafael ar yr adnoddau sydd ar gael ynghyd â chymorth i gyflawni eu nodau a’u canlyniadau addysgol
10. gweithio mewn partneriaeth â phlant neu bobl ifanc ac eraill ar atebion creadigol ar gyfer adnoddau a chymorth
11. grymuso plant neu bobl ifanc ac eraill i gynllunio unrhyw gymorth ychwanegol sydd ei angen i gyflawni eu nodau a’u canlyniadau addysgol
12. cynnwys plant neu bobl ifanc mewn perthynas â sut y bydd nodau a chanlyniadau addysgol yn cael eu monitro a'u hadolygu
13. cydnabod llwyddiannau a chyflawniadau addysgol plant neu bobl ifanc
14. annog eraill i gydnabod llwyddiannau a chyflawniadau addysgol plant neu bobl ifanc
15. monitro’r gwaith o weithredu’r adnoddau a'r cymorth a gynlluniwyd
16. defnyddio strategaethau i ddatblygu sgiliau hunanreoleiddio plant neu bobl ifanc wrth reoli heriau
17. mynd ati mewn partneriaeth â phlant neu bobl ifanc ac eraill i adolygu cyflawniadau, nodau a chanlyniadau addysgol, a nodi unrhyw newidiadau sy’n angenrheidiol

18. rhoi gwybod i eraill am gynnydd a newidiadau i adnoddau, cymorth, nodau a chanlyniadau addysgol plant neu bobl ifanc
19. cwblhau’r cofnodion a’r adroddiadau sydd eu hangen am nodau a chanlyniadau addysgol plant neu bobl ifanc
20. myfyrio ar sut y gwnaethoch chi gyflawni eich rolau a'ch cyfrifoldebau i hybu potensial addysgol plant a phobl ifanc

## Gwybodaeth a dealltwriaeth

*Mae angen i chi wybod a deall:*

1. sut mae cael gafael ar gofnodion a gwybodaeth am anghenion cyfathrebu, iaith a datblygiadol plant a phobl ifanc
2. sut a ble i gael gafael ar adnoddau a chymorth ychwanegol ar gyfer plant a phobl ifanc
3. yr ystyriaethau ychwanegol ar gyfer plant a phobl ifanc sydd â phrofiad o ofal o ran cyflawni eu canlyniadau addysgol
4. sut mae defnyddio egwyddorion sy'n ystyriol o drawma mewn cymorth addysgol
5. egwyddorion asesiadau risg, rheoli risgiau a chymryd risgiau cadarnhaol
6. sut mae gweithio mewn partneriaeth â phlant a phobl ifanc ac eraill i nodi beth sy'n bwysig iddynt yn eu bywydau a pham
7. pwysigrwydd urddas, caredigrwydd a thosturi mewn cymorth addysgol
8. sut mae cefnogi rheoleiddio emosiynol yn ystod cymorth addysgol
9. sut mae adnabod ymddygiad fel ffordd o gyfathrebu
10. pwysigrwydd cwrdd ag anghenion addysgol plant a phobl ifanc a'r cysylltiad rhwng addysg a'r canlyniadau maent yn dymuno'u cyflawni yn ystod eu bywydau
11. sut mae gweithio mewn partneriaeth â phlant a phobl ifanc ac eraill i nodi, mesur a gwerthuso eu canlyniadau
12. sut mae defnyddio dyfeisiau ac adnoddau digidol i gefnogi plant a phobl ifanc i gyflawni eu potensial addysgol
13. ffactorau sy'n cefnogi plant a phobl ifanc i ffynnu a chyflawni eu llawn botensial
14. sut mae cefnogi niwrowahaniaeth ac anghenion ychwanegol plant a phobl ifanc mewn cymorth addysgol
15. sut mae stereoteipiau a stigma yn gallu cyfyngu ar ddatblygiad addysgol plant a phobl ifanc
16. ffactorau amgylcheddol, corfforol, cymdeithasol ac emosiynol a all wella neu gyfyngu ar gyflawniad a datblygiad addysgol
17. dylanwad diwylliant a chefndir ar y cymorth addysgol i blant a phobl ifanc
18. sut mae plant a phobl ifanc yn dysgu ac yn cyflawni drwy addysg a sut mae hyn yn perthyn i agweddau eraill ar eu datblygiad
19. yr adnoddau, yr wybodaeth a'r cyngor sydd ar gael i gefnogi datblygiad addysgol a chyflawniadau plant a phobl ifanc
20. y mathau o gyfleoedd sy'n codi'n naturiol sy'n cefnogi plant a phobl ifanc mewn perthynas â'u cyflawniad a'u datblygiad addysgol

21. y ddarpariaeth addysgol leol a’r opsiynau sydd ar gael i gefnogi anghenion addysgol plant a phobl ifanc
22. y dulliau o annog ac ysgogi plant a phobl ifanc i gyflawni eu potensial addysgol
23. theorïau sy’n berthnasol i botensial addysgol plant a phobl ifanc
24. y gofynion cyfreithiol, y safonau ymarfer, y fframweithiau a’r canllawiau perthnasol ar gyfer hybu potensial addysgol plant a phobl ifanc
25. gofynion y gweithle mewn perthynas â chydraddoldeb, urddas, cynhwysiant a hawliau wrth hybu potensial addysgol plant a phobl ifanc
26. sut mae gweithio mewn partneriaeth ag eraill i hybu potensial addysgol plant a phobl ifanc
27. sut mae ymateb i faterion a phryderon a allai godi yn ystod addysg plant a phobl ifanc
28. sut y gall eich profiadau personol a’ch rhagfarn ddiarwybod effeithio wrth hybu potensial addysgol plant a phobl ifanc, a sut i fynd i'r afael â hyn
29. rôl goruchwyliaeth, ymarfer myfyriol, a dysgu a datblygu wrth hybu potensial addysgol plant a phobl ifanc

## Geirfa

Mae'r eirfa ar gyfer y Safon Alwedigaethol Genedlaethol hon ar gael ar wefan Sgiliau Gofal a Datblygu.

HSCCLD360

Hybu potensial addysgol plant a phobl ifanc

| | |
|---|---|
| **Datblygwyd gan** | Skills for Care & Development |
| **Fersiwn rhif** | 1 |
| **Dyddiad cymeradwyo** | 31 Ion 2026 |
| **Dyddiad Adolygu Dangosol** | 31 Ion 2031 |
| **Dilysrwydd** | Ar hyn o bryd |
| **Statws** | Gwreiddiol |
| **Sefydliad cychwynnol** | Skills for Care and Development |
| **RCU gwreiddiol** | HSCCLD360 |
| **Galwedigaethau perthnasol** | Gofal Cymdeithasol a Gofal Plant |
| **Cyfres/Set** | Iechyd a Gofal Cymdeithasol a Gofal Plant, Dysgu a Datblygu |
| **Geiriau Allweddol** | Potensial Addysgol, Iechyd a Gofal Cymdeithasol a Gofal Plant, Dysgu a Datblygu |